CYMHWYSTER BAGLORIAETH CYMRU

DIPLOMA CANOLRADD

SUT AETH Y PUMED CYLCH ARHOLI (HAF 2006)?

CBC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd
CF5 2YX

CYNNWYS

Cynnwys		**2**
Cyflwyniad		**3**
1.	**Beth yw Bagloriaeth Cymru?**	**4**
2.	**Faint o ymgeiswyr safodd CBC? Sut gwnaethon nhw?**	**5**
3.	**Pa mor 'alluog' oedd yr ymgeiswyr a safodd CBC?**	**7**
4.	**Pa raglenni Opsiynau a ddilynodd yr ymgeiswyr?**	**10**
5.	**Sut wnaeth yr ymgeiswyr yng Nghydrannau Craidd CBC?**	**13**
	• **Sgiliau allweddol**	**13**
	• **Yr Ymchwiliad Unigol**	**18**
	• **Y dyddiaduron/datganiadau dilysu**	**18**
6.	**Pam methodd rhai ymgeiswyr?**	**23**
7.	**Amcangyfrifon athrawon**	**23**
8.	**Materion gweinyddol**	**24**
9.	**Felly, pa gasgliadau y gallwn ddod iddynt wedi CBC 2006?**	**25**

CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad hwn, '*Sut aeth y Pumed Cylch Arholi (Haf 2006)?* yn dilyn yr un arddull a fabwysiadwyd gan yr Adroddiad cyntaf a gynhyrchwyd yn 2005 a'r un amcanion sydd iddo, sef rhoi:

- gwybodaeth ynghylch pa mor llwyddiannus oedd yr ymgeiswyr a ddilynodd y Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru rhychwantol yn y pumed cylch arholi llawn; a
- chyngor ynghylch y rhannau hynny o'r rhaglen CBC a oedd yn llwyddiannus a'r rheini y mae angen rhoi sylw iddynt.

Mae Tîm Prosiect CBC yn awgrymu mai'r ffordd orau o ystyried y negeseuon cyffredinol sydd yn yr adroddiad hwn yw drwy drafod ag athrawon. Felly, y prif ganfyddiadau oedd fframwaith y cyfarfodydd adborth a gynhaliwyd yng ngogledd, de-orllewin a de-ddwyrain Cymru yn ystod rhan ganol tymor yr hydref, 2006. Roedd y gweithdai'n rhan bwysig o'r cyfarfodydd hyn, pryd bu athrawon yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun enghreifftiau o waith ymgeiswyr. Er mwyn manteisio'n llawn ar yr Adroddiad hwn, dylid ei ddarllen ar y cyd â'r enghreifftiau a gaiff eu dosbarthu i bob canolfan CBC.

Mae'r Adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth sy'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau, yn arbennig:

- cyrhaeddiad blaenorol yr ymgeiswyr yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 (TAG neu gymhwyster cyfatebol);

- ystadegau a gwaith a gyflwynwyd ar gyfer Dyfarniad Canolradd 2006;

- Adroddiad y Safonwyr

- amrediad eang o ddata o holiaduron ac ymweliadau â chanolfannau.

Mae Tîm y Prosiect o'r farn mai'r athrawon a'u hymgeiswyr yw'r bobl bwysicaf wrth ddatblygu CBC, a'r gobaith yw y bydd yr Adroddiad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt wrth iddynt baratoi at gam nesaf CBC.

Kim Morgan, Peter Davies, Neil Owens, Nia Williams
Hydref 2006

1. BETH YW BAGLORIAETH CYMRU?

Beth yw'r Fagloriaeth?

Cymhwyster rhychwantol yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) sy'n cydnabod cyrhaeddiad ymgeiswyr ar lefelau 2 a 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NVQ).

Mae'r rhaglen astudio'n cynnwys Craidd a Dewisiadau. Mae pedair cydran i'r Craidd:

- Sgiliau allweddol
- Cymru, Ewrop a'r Byd (CEB)
- Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG)
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).

Y Opsiynau yw'r pynciau a'r cyrsiau megis TGAU, TGAU Galwedigaethol, NVQ a BTEC sy'n creu rhaglen astudio lawn yr ymgeisydd.

Yn ogystal, mae pob ymgeisydd yn gweithio gyda thiwtor personol sy'n rhoi cefnogaeth ac arweiniad cyffredinol.

Beth sydd angen i'r ymgeiswyr ei wneud i gyflawni CBC?

Dyfernir Diploma Bagloriaeth Cymru ar naill ai lefel 2 (Canolradd) neu lefel 3 (Uwch) i ymgeiswyr sy'n cwblhau pob rhan o CBC (Craidd a Dewisiadau) i'r safon angenrheidiol. Mae'r gofynion asesu i'r Dyfarniad Canolradd yn haf 2006 yn cynnwys y Craidd a'r Opsiynau, a'r rhain yw:

Craidd	Dewisiadau
• Tri sgìl allweddol ar lefel 2, rhaid i un ohonynt fod o'r tri sgìl allweddol cyntaf gyda'r sgiliau allweddol eraill ar lefel 1 (gofynion y cylch a ddaeth i ben yn haf 2006). • Cofnodion/adroddiadau ynghylch Gweithio gyda Chyflogwr, Gweithgarwch Menter Tîm a Chyfranogiad Cymunedol. • Ymchwiliad Unigol ar lefel 2. • Tystiolaeth o waith ar y Modiwl laith a gofynion cwricwlwm craidd eraill.	Pedair gradd A*-C TGAU neu NVQ Lefel 2 neu Ddyfarniad Cyntaf BTEC ar lefel llwyddo neu gymhwyster cyfatebol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sut perfformiodd y cymhwyster rhychwantol hwn yn ei bumed flwyddyn 'yn fyw', ac wrth wneud hynny, mae'n rhoi

cyngor i athrawon ynghylch y rhannau hynny o'r rhaglen a oedd yn llwyddiannus a'r rhai y mae angen sylw arnynt.

2. FAINT O YMGEISWYR SAFODD CBC? SUT GWNAETHON NHW?

Nifer yr ymgeiswyr

Ychydig o ffeithiau am yr hyn a gyflawnwyd (sylwer: ffigurau 2005 yw'r rhai mewn cromfachau).

- 722 (404) oedd cyfanswm y cofrestriadau am Ddiploma Canolradd CBC yn 2006 , o'r rheini cwblhaodd 259 neu 36% y rhaglen (194 neu 48%). Mae'r ffigurau 'cofrestriadau' yn cynrychioli nifer yr ymgeiswyr oedd yn anelu at Ddyfarniad Bagloriaeth Canolradd eleni, fel y'u nodwyd gan 4 ysgol a 10 coleg ym mis Chwefror 2006. Dyfarnwyd Diploma Canolradd CBC i 194 ymgeisydd, sef 75% o'r 259 a gwblhaodd y rhaglen (115 neu 59%).

- Dyfarnwyd Tystysgrif Craidd Canolradd CBC i 19 (9) ymgeisydd arall. Mae hyn yn ei hun yn gamp sylweddol ar ran yr ymgeiswyr hyn, gan gynnwys pob un o'r chwe sgìl allweddol. Fodd bynnag, yn y cam hwn maen nhw wedi syrthio'n brin o'r Dyfarniad Diploma llawn oherwydd na lwyddwyd i ateb gofynion yr Opsiynau (h.y. TGAU, NVQ lefel 2 neu gymhwyster cyfatebol). Cyflawnodd cyfanswm o 213 (124) ymgeisydd y Dystysgrif Craidd, sef 82% (64%) o'r 259 a gwblhaodd y rhaglen.

- Mae'r 46 ymgeisydd sy'n weddill wedi ennill cyfartaledd o 3 chymhwyster sgiliau allweddol yr un ond ni lwyddasant i gyflawni'r Dystysgrif Craidd neu'r Diploma oherwydd iddynt syrthio'n brin o'r amrediad llawn o ofynion. Mae natur gronnus Bagloriaeth Cymru'n golygu os bydd yr ymgeiswyr hyn yn cyflawni'r rhannau o'r cymhwyster sy'n weddill yn y flwyddyn academaidd i ddod, gallant ddewis rhoi cynnig eto i gael y Diploma Canolradd ym mis Mawrth neu fis Awst 2007.

- Dylid nodi bod dyfarniad hefyd bob mis Mawrth, sy'n gyfle i ymgeiswyr nad ydynt wedi cyflawni'r dyfarniad Canolradd llawn yr haf blaenorol i gyflawni eu diploma. Ymgeisiodd 12 ymgeisydd ar lefel Canolradd am y dyfarniad ym mis Mawrth. Llwyddodd pob un o'r 12 (100%) o'r ymgeiswyr Canolradd i gael y Diploma llawn. Roedd 6 o'r ymgeiswyr wedi ymgeisio am ddyfarniad Haf 2005 ac roeddent bellach yn gwella eu perfformiad neu'n sefyll rhannau o'r Diploma nad oeddent wedi rhoi cynnig arnynt eto. Roedd 6 yn cwblhau'r Dyfarniad Canolradd cyn symud ymlaen i'r Dyfarniad Uwch yn Haf 2006.

A ddaeth yr ymgeiswyr o ysgolion neu o golegau?

Roedd ymgeiswyr y Diploma Canolradd yn 2006 yn dod o 4 ysgol a 10 coleg a oedd yn rhan o'r rhaglen beilot. Dangosir isod ddosbarthiad cyfanredol fesul ysgolion/colegau a fesul rhyw gogyfer â'r ymgeiswyr a gwblhaodd y rhaglen, ac i'r rhai y dyfarnwyd y Diploma iddynt.

Ymgeiswyr	Cyfanswm	Ysgolion	Colegau	Gwryw	Benyw
Wedi cwblhau CBC	259 (194) 36% (48%)	10 (14) 4% (7%)	249 (180) 96% (93%)	61 (63) 24% (32%)	198 (131) 76% (68%)
Dyfarnwyd Diploma Canolradd	194 (115) 75% (59%)	9 (9) 5% (8%)	185 (106) 95% (92%)	56 (39) 29% (34%)	138 (76) 71% (66%)

Tabl 1:
Cwblhau a chyflawni



Ffig. 1

Pam na lwyddodd rhai ymgeiswyr i gwblhau Rhaglen CBC?

Fel rhan o'r gwerthusiad o'r rhaglen beilot, gwnaethpwyd arolwg o'r 463 (210) ymgeisydd o'r cyfanswm o 722 (404) o ymgeiswyr na lwyddodd i gwblhau'r rhaglen er mwyn deall y rhesymau pam na lwyddwyd i'w chwblhau. Mae'r rhesymau amlycaf am fethu cwblhau'n ymwneud â'r canlynol:

Nododd 46% (17%) eu bod eisiau gohirio tan 2007. Nododd 16% (23%) iddynt adael eu hysgol neu'r coleg i gael gwaith. Ni lwyddodd 25% (60%) o'r ymgeiswyr a gofrestrwyd i gwblhau Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru ond arhoson nhw yn yr ysgol neu'r coleg i gwblhau eu rhaglenni astudio eraill: Y prif resymau a nodwyd gan y grŵp yma o ymgeiswyr dros beidio â chwblhau'r Diploma Canolradd oedd anhawster wrth gwblhau: (a) y gofynion sgiliau allweddol (18%); a (b) chyfuniad o'r Ymchwiliad Unigol, y gofynion sgiliau allweddol a'r Opsiynau (78%). Nododd 4% o'r ymgeiswyr iddynt ei chael hi'n anodd cwblhau gofynion y Cwricwlwm Craidd.

Tabl 2:
Rhesymau am fethu cwblhau

3. PA MOR 'ALLUOG' OEDD YR YMGEISWYR A SAFODD CBC?

Cafwyd gwybodaeth am gyrhaeddiad blaenorol yr ymgeiswyr yng Nghyfnod Allweddol 3 a TGAU, neu gymhwyster cyfatebol, i'r rhai a gwblhaodd rhaglen CBC Canolradd yn 2006 ac i'r rhai na lwyddodd. Dadansoddwyd y data ei hun o ran:

- cyfanswm y cofrestriadau am bob grŵp;
- gwrywod a benywod;
- colegau ac ysgolion.

Ymgeiswyr a gwblhaodd rhaglen CBC

Roedd 259 o'r ymgeiswyr hyn, gyda 61 gwryw a 198 benyw. Dilynodd 249 raglen CBC mewn colegau a dim ond 10 mewn ysgolion.

Mae'r data'n dangos sgoriau'r ymgeiswyr i gyd mewn Mathemateg, Saesneg, Gwyddoniaeth a Chymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3 ac mewn TGAU neu gyrsiau cyfatebol. Fel y nodwyd uchod, mae'r data wedi'i gyflwyno o ran cyfanswm yr ymgeiswyr, gwrywod a benywod, colegau ac ysgolion.

Cyfnod Allweddol 3

Colegau: 249 Ymgeisydd: lefel gymedrig – 4.6 (cyfartaledd cenedlaethol 5)

Mathemateg			Saesneg			Gwyddoniaeth			Cymraeg		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
4.7	4.8	4.6	4.5	4.2	4.4	4.5	4.5	4.5	4.5	4.4	4.4

Ysgolion: 10 Ymgeisydd: lefel gymedrig – 4.7

Mathemateg			Saesneg			Gwyddoniaeth			Cymraeg		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
5.0	5.2	4.0	4.4	4.5	3.7	4.8	4.7	4.8	4.5	4.5	4.5

Tabl 3:
Sgoriau CA3 mewn ysgolion a cholegau

- roedd y lefel gymedrig a gyflawnwyd yn CA3 i fwyafrif yr ymgeiswyr, 4.6, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, 5.0;

- 4.6 oedd y lefel gymedrig a gyflawnwyd gan ymgeiswyr sydd bellach mewn colegau, ychydig yn uwch nag yn 2005. Roedd y lefel gymedrig mewn ysgolion ychydig yn uwch, 4.7. Fodd bynnag, nifer fach iawn o ymgeiswyr oedd;

- roedd y cyflawniad yn ddigon tebyg dros y pedwar pwnc i'r ymgeiswyr sydd bellach sydd mewn colegau, sef mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr.

TGAU, COEA, GNVQ

Colegau: TGAU cymedr – 2.2

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig: 2.2 • Roedd gan 78% lai na 4 A*-C • Doedd gan 26% ddim TGAU	Roedd gan 39 (19%) yr ymgeiswyr CoEA gyda chymedr llwyddo o 1.3 pwnc.	Roedd gan 12 ymgeisydd (11 benyw, 1 gwryw) GNVQs mewn Busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TGCh, Hamdden a Thwristiaeth, Hamdden Lefel 1

Ysgolion: TGAU cymedr – 4.3

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig: 4.3 • Roedd gan 50% lai na 4 A*-C • Doedd gan 12.5% ddim TGAU	Roedd gan 3 candidates CoEA, gyda chymedr llwyddo o 3.	Roedd gan 5 ymgeisydd (gwrywod i gyd) GNVQ mewn TGCh.

Tabl 4:
Sgoriau TGAU, COEA, GNVQ mewn colegau ac ysgolion

- mae cyflawniad ar lefel TGAU yn isel (mae mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr mewn colegau a 2.2 TGAU yw'r cyfartaledd);
- roedd gan 19% o'r ymgeiswyr sydd nawr mewn colegau gymwysterau lefel Mynediad.

Ymgeiswyr na chwblhaodd raglen CBC

O'r 463 ymgeisydd na chwblhaodd y rhaglen, cafwyd data am 428 ymgeisydd. Mae'r data fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol 3

Colegau:218 Ymgeiswyr: lefel gymedrig – 4.6 (cyfartaledd cenedlaethol 5)

Mathemateg			Saesneg			Gwyddoniaeth			Cymraeg		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
4.3	4.3	3.9	4.3	4.8	5.1	4.8	4.5	4.4	4.5	4.4	4.4

Ysgolion: 210 Ymgeiswyr: lefel gymedrig – 4.8

Mathemateg			Saesneg			Gwyddoniaeth			Cymraeg		
Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod	Pawb	Gwrywod	Benywod
5.2	5.3	4.9	4.7	4.8	5.1	4.9	4.6	4.9	4.5	4.5	4.5

Tabl 5:
Sgoriau CA3 mewn colegau ac ysgolion – ymgeiswyr na chwblhaodd

Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod cyflawniad ymgeiswyr yn KS3 yn achos yr ysgolion a'r colegau'n debyg iawn i grwpiau a gwblhaodd y cymhwyster a'r rhai na lwyddodd i wneud hynny.

TGAU, COEA, GNVQ

Colegau: cymedr TGAU – 1.6

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig:1.6 • Roedd gan 88.2% lai na 4 A*-C • Doedd gan 35.4% ddim TGAU	Roedd gan 25% o'r ymgeiswyr CoEA, gyda chymedr llwyddo o 2.6 pwnc.	Roedd gan 29 ymgeisydd (11 benyw, 18 gwryw) TGAU mewn Busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TGCh, Hamdden a Thwristiaeth.

Ysgolion: cymedr TGAU – 4.9

TGAU	COEA	GNVQ
• Nifer TGAU gymedrig 4.9 • Roedd gan 49.7% lai na 4 A*-C • Doedd gan19.5% ddim TGAU	Roedd gan 2.1% o'r ymgeiswyr CoEA, gyda chymedr llwyddo o 1.5 pwnc.	Roedd gan 6 ymgeisydd GNVQ mewn TGCh, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Hamdden a Thwristiaeth.

Tabl 6: Sgoriau TGAU, COEA, GNVQ mewn ysgolion a cholegau

- yr un fath â'r grŵp a gwblhaodd y cymhwyster, mae cyflawniad mewn TGAU yn isel, er ei fod yn well ymhlith yr ymgeiswyr mewn ysgolion;
- roedd gan yr ymgeiswyr mewn colegau yn y grŵp na lwyddodd i gwblhau gyflawniad blaenorol is na'r rhai yn y grŵp a lwyddodd i gwblhau. Mae nifer yr ymgeiswyr mewn ysgolion yn y grŵp a lwyddodd i gwblhau mor fach fel na ellir dod i gasgliadau dilys;
- roedd gan 25% o ymgeiswyr colegau yn y grŵp na lwyddodd i gwblhau gymwysterau lefel Mynediad.

Pa gasgliadau cyffredinol y gellir eu gwneud o'r data yma?

- Mae data Cyfnod Allweddol 3 yn awgrymu bod y garfan gyfan (y rhai a gwblhaodd a'r rhai na chwblhaodd) wedi cyflawni sgoriau'n is na'r cyfartaledd (lefel 5). Yn y patrwm hwn roedd gwahaniaethau bychain o

ran cyflawniad rhwng gwryw/benyw ac ysgolion/colegau. Ymddengys fod ymgeiswyr yn gwneud ychydig yn well mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth na mewn Saesneg. Roedd y cyflawniad mewn Cymraeg ychydig yn well na'r cyflawniad mewn Saesneg.

- Mae'r cyflawniad blaenorol yng Nghyfnod Allweddol 4 yn isel, gyda chyfartaledd o 2 TGAU i bob ymgeisydd a 26% o'r ymgeiswyr a gwblhaodd mewn colegau heb TGAU o gwbl. Ymhlith yr ymgeiswyr o golegau roedd gan rhwng 19% (y grŵp a gwblhaodd) a 25% (y grŵp na chwblhaodd) gymwysterau lefel Mynediad.

- Mae'n ddiddorol nodi bod y garfan a gwblhaodd a'r un na chwblhaodd wedi cael anhawster gyda TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4 ac felly byddai disgwyl iddynt gael anhawster yn ateb anghenion Diploma Canolradd CBC. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a fyddai cyfran o'r garfan hon wedi bod yn fwy addas i ddilyn Diploma Sylfaen.

4. PA GYRSIAU OPSIYNAU A DDILYNODD YR YMGEISWYR?

Roedd dau is-grŵp i'r grŵp o ymgeiswyr a gwblhaodd y Diploma Canolradd yn 2006. Un grŵp a safodd eu cymwysterau Opsiynau eleni, a'r grŵp arall a oedd eisoes wedi cyflawni'r gofynion Opsiynau angenrheidiol i hawlio'r Diploma Canolradd cyn eleni ac wedi mynd ymlaen i ddilyn rhaglenni pellach.



Ffig. 2

Cyrsiau/rhaglenni a ddilynwyd (%)

Meysydd rhaglen mwyaf poblogaidd
Y 7 maes rhaglen mwyaf poblogaidd oedd:



Ffig. 3

Y meysydd galwedigaethol eraill a oedd yn y Bac Cymreig oedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, TG, Cynnal, cadw a chywiro cerbydau a DIDA (Diploma mewn Cymwysiadau Digidol).

Y cymwysterau mwyaf poblogaidd
Y 7 cymhwyster unigol mwyaf poblogaidd oedd:



Ffig. 4

Roedd y 37% sy'n weddill yn fathau eraill o gymwysterau mewn Teithio a Thwristiaeth, Busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Croesawiaeth ac Arlwyo, Cynnal a Chadw Cerbydau a DIDA.

Y grŵp a oedd wedi cyflawni'n flaenorol (12% o'r cyfanswm)

O'r grŵp a oedd eisoes wedi cyflawni'r gofyniad Opsiynau a oedd yn angenrheidiol i hawlio'r Diploma Canolradd, roedd dros 50% wedi cyflawni o leiaf 4 A*-C TGAU. Roedd y gweddill wedi cyflawni cyfuniad o TGAU a chymwysterau lefel 2 eraill mewn Arlwyo, TG a Hamdden/Teithio a Thwristiaeth.



Ffig. 5

Crynodeb o'r Opsiynau galwedigaethol yn y Diploma Canolradd

Fel y gwelwyd yn 2005, roedd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr Canolradd eleni mewn colegau ac mae 7 maes rhaglen sy'n arbennig o boblogaidd, a 4 o'r rhain yn rhan o'r Diploma Canolradd am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r meysydd rhaglen sy'n rhan o CBC yn ganlyniad i bolisi'r colegau, a ddewisodd ddechrau peilota gyda meysydd rhaglen arbennig a oedd fwyaf addas i CBC yn eu barn nhw.

Y llynedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TG oedd dau o'r meysydd rhaglen mwyaf poblogaidd. Eleni mae Gofal Anifeiliaid, Croesawiaeth ac Arlwyo a Gwallt a Harddwch ymhlith y 7 mwyaf poblogaidd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Tîm y Prosiect wedi bod yn ymwneud â gwaith i dynnu meysydd rhaglen eraill i beilot CBC, yn benodol Adeiladu, Peirianneg ac ymchwiliadau'n seiliedig ar y Tir. Mae rhai colegau wedi dechrau cynnig y cyrsiau hyn, ond bu peth amharodrwydd i gynnwys meysydd o'r fath gan y tybir ei bod yn anodd eu cyfateb i ofynion CBC. Mae gweithgorau ym mhob un o'r tri maes wedi bod yn ceisio dangos sut gellir gwneud hyn.

5. SUT GWNAETH YR YMGEISWYR YNG NGHYDRANNAU CRAIDD CBC?

A ninnau bellach yn gwybod rhywbeth am gyflawniad blaenorol y garfan hon, ynghyd â gwybodaeth am eu rhaglenni astudio, mae'n bryd edrych yn fanwl ar sut gwnaethon nhw yn y cydrannau asesu amrywiol. Felly, mae'r adran hon yn ystyried cyflawniad yng nghydrannau Craidd CBC. Ystyrir cyflawniad yr ymgeiswyr o dan 3 phennawd:

- y Sgiliau Allweddol;
- yr Ymchwiliad Unigol;
- y Dyddiaduron/Datganiadau Dilysu.

SGILIAU ALLWEDDOL



Ffig. 6



Ffig. 7

Mae canlyniadau perfformiad yr ymgeiswyr yn y rhan sgiliau allweddol o Graidd CBC i'w gweld yn Tabl 7 isod. Wedyn maent wedi'u cysylltu â'r lefelau cyrhaeddiad cenedlaethol mewn sgiliau allweddol a welir yn y 'Bwletin Ystadegol' a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 27 Mehefin 2006.

Sgìl Allweddol (%)	**Pawb 259 (%)**				**Gwrywod 61 (%)**				**Benywod 198 (%)**				**Ysgolion 10 (%)**				**Colegau 249 (%)**			
	1	***2***	***3***	***M***	***1***	***2***	***3***	***M***	***1***	***2***	***3***	***M***	***1***	***2***	***3***	***M***	***1***	***2***	***3***	***M***
Cyfathrebu	16.7	71.1	1.5	10.6	27.0	65.0	3.1	4.8	13.5	73.0	1.0	12.5	10.0	80.0	10.0	0	17.0	70.7	1.2	11.1
Cymhwyso Rhif	61.2	30.0	0.4	8.4	39.7	54.0	0	6.3	68.0	22.5	0.5	9.0	10.0	90.0	0	0	63.2	27.7	0.4	8.7
TGCh	24.3	65.0	1.5	9.1	11.1	81.0	3.1	4.8	28.5	60.0	1.0	10.5	0	80.0	20.0	0	25.3	64.4	0.8	9.5
Gweithio gydag Eraill	15.2	75.3	2.3	7.2	23.8	66.7	6.3	3.1	12.5	78.0	1.0	8.5	60.0	10.0	30.0	0	13.4	77.9	1.2	7.5
Datrys Problemau	60.0	30.4	1.5	8.0	49.2	44.4	3.1	3.1	63.5	26.0	1.0	9.5	60.0	30.0	10.0	0	60.0	30.4	1.2	8.3
Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun	28.9	61.2	1.1	8.7	27.0	65.0	4.8	3.1	29.5	60.0	0	10.5	60.0	10.0	30.0	0	27.7	63.2	0	9.1

Tabl 7
Cyflawniad Sgiliau Allweddol yn CBC fesul rhyw ac ysgolion/colegau

Allwedd:
3 = Lefel 3

2 = Lefel 2
1 = Lefel 1
M = Methu ar naill ai lefel 1 neu 2

Mae'r tabl yn amlygu'r pwyntiau canlynol:

- Targedodd mwyafrif y canolfannau a'r ymgeiswyr Cyfathrebu, TGCh, Gweithio gydag Eraill a Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun i gael tri sgìl ar lefel 2.
- Roedd cyrhaeddiad ar lefel 2 mewn Cymhwyso Rhif a Datrys Problemau'n is na'r pedwar sgìl allweddol arall.
- Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gyflawni'r 6 sgìl allweddol roedd eu hangen, gyda chanran fechan yn unig yn methu ym mhob sgìl.
- Mae gwahaniaethau arwyddocaol yn codi rhwng gwrywod a benywod mewn Cymhwyso Rhif, TGCh a Datrys Problemau.
- Yn gyffredinol, daliodd canolfannau at yr un patrwm 'lefel 2' ag a welwyd y llynedd, a'r Opsiynau mwyaf poblogaidd ar gyfer lefel 2 oedd Cyfathrebu, TGCh, Gweithio gydag Eraill a Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun.
- Llwyddodd nifer fach o ymgeiswyr i gyflawni Sgiliau Allweddol ar Lefel 3, yn uwch na'r gofyniad am y Diploma Canolradd.

Beth am y canlyniadau sgiliau allweddol hyn mewn perthynas â'r rhai i ymgeiswyr yng Nghymru i gyd? Y ffigurau cenedlaethol yw:

- Dyfarnwyd dros 168,000 sgìl allweddol i oddeutu 85,700 dysgwr rhwng mis Hydref 2000 a mis Medi 2005, gyda chyfartaledd o 1.9 i bob dysgwr.
- Dyfarnwyd 85,294 cymhwyster sgiliau allweddol yng Nghymru rhwng mis Hydref 2004 a mis Medi 2005. Roedd hyn yn gynnydd o 30,786 dyfarniad yn 2003/04.
- Yn 2004/05, canran y cymwysterau sgiliau allweddol a ddyfarnwyd yng Nghymru oedd:

ar Lefel 1, 47%;
ar Lefel 2 42%;
a 11 y cant ar Lefel 3.

Mae hyn yn cymharu â'r ffigurau canlynol am CBC:

ar Lefel 1, 10.1%
ar Lefel 2, 45.8%
ar Lefel 3, 38.4%
Aflwyddiannus, 5.7%

Yn 2004/05, ar lefel Genedlaethol:

roedd 28% o'r dyfarniadau sgiliau allweddol mewn Cyfathrebu
roedd 22% mewn Cymhwyso Rhif
roedd 20% mewn TG
roedd 12% mewn GeDPH
roedd 12% mewn Gweithio gydag Eraill
roedd 7% mewn Datrys Problemau.

Ar gyfer CBC, llwyddodd 94.3% o'r ymgeiswyr i gyflawni pob un o'r sgiliau allweddol, gyda chanran fechan yn unig yn methu ym mhob sgìl allweddol.

- Yn genedlaethol, llwyddodd 22,200 unigolyn i gyflawni tri neu fwy o sgiliau allweddol ers mis Hydref 2000, a bron pob un o'r rhain yn 16 oed neu drosodd. Mae hyn yn 13.1% o'r holl ymgeiswyr. Yn achos CBC, llwyddodd 99.6% o'r ymgeiswyr i gyflawni tri neu fwy o sgiliau allweddol.

Mae'r ddwy set yma o ystadegau'n dangos yn eglur iawn i ba raddau y mae CBC wedi hwyluso cyflawni mwy o sgiliau allweddol ac ystod helaethach ohonynt nag yn achos ymgeiswyr nad ydynt yn dilyn CBC yn genedlaethol.

YR YMCHWILIAD UNIGOL

Cynhyrchodd nifer o ymgeiswyr Ymchwiliadau Unigol o safon foddhaol i dda. Roedd y gwaith yn ddiddorol, yn amrywiol ac yn ysbryd CBC. Roedd y dewis o ddeunydd enghreifftiol ar y cyfan yn addas, yn hydrin ac yn briodol i Lefel 2. Prif nodweddion yr Ymchwiliadau Unigol a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr oedd:

- Roedd y pynciau'r Ymchwiliadau, ar y cyfan, yn amrywiol ac yn amlwg yn deillio o ddiddordebau'r ymgeiswyr eu hunain neu o'u meysydd rhaglen Craidd.

- Roedd amrediad o bynciau cyfoes perthnasol a oedd, ar y cyfan, wedi'u seilio ar faterion penodol. Yn yr enghreifftiau gorau, roeddynt wedi'u seilio ar ragdybiaethau, a hynny'n galluogi'r ymgeiswyr i symud ymlaen at gasgliadau ystyrlon.

- Mewn rhai achosion, defnyddiwyd cyflwyniadau PowerPoint i roi tystiolaeth o Sgiliau Allweddol ar lefel 2.

- Yn yr Ymchwiliadau gorau roedd defnydd da o holiaduron ac ymchwil unigol. Fodd bynnag, dilynwyd hyn i raddau amrywiol o ran gwerthuso.

- Roedd llyfryddiaethau wedi'u cynnwys ym mwyafrif yr Ymchwiliadau, ac roedd y rhain yn ddefnyddiol wrth ddilysu'r ffynonellau gwybodaeth. Yn yr Ymchwiliadau gorau, roedd cynnwys peth gwaith gwreiddiol ar ffurf Atodiad yn ddefnyddiol yn ogystal.

- Roedd yr Ymchwiliadau wedi'u strwythuro'n dda ar y cyfan gydag amcanion eglur ac roeddent yn briodol i lefel 2 Sgiliau Allweddol o ran Cyfathrebu. Felly roedd cyfle l'r ymgeiswyr ddangos y cymwyseddau ar draws y pedwar maen prawf asesu.

Gellir gwneud nifer o sylwadau manylach am strwythur ac asesu'r Ymchwiliadau.

Sgiliau a thechnegau

Roedd y defnydd o **fapiau a diagramau** yn yr Ymchwiliadau gorau'n ddefnyddiol i gyflwyno Ymchwiliad lle roeddynt yn bwrpasol, gan roi iddynt ymdeimlad

gwirioneddol o le a/neu gyd-destun. Cafodd **ystadegau** eu cynnwys weithiau. Yn yr Ymchwiliadau gorau roedd y rhain wedi'u cynnwys yn effeithiol yn rhan o'r testun ac wedi'u defnyddio yn yr ymdriniaethau ac nid rhyw 'atodiad' oeddent er mwyn ateb y meini prawf asesu a dim mwy. Lle roedd Ymchwiliadau yn crafu llwyddo neu'n methu, roedd yr elfen hon yn rhan allweddol o'r penderfyniad. Cafodd **graffiau** syml eu cyflwyno'n briodol ar y cyfan, a'u cysylltu i'r testun. Roeddent yn fodd o gyfoethogi nifer o Ymchwiliadau. Fodd bynnag, ar lefel 2, mewn gormod o achosion, roedd cyfle i gyflwyno arsylwi a gwerthuso na chafodd ei ddatblygu'n llawn. Gwelwyd **data ar ffurf tablau** hefyd i raddau amrywiol a hynny'n cyfoethogi'r Ymchwiliadau. Braf oedd gweld **data gwreiddiol** wedi'u cynnwys. Roedd yn cyfoethogi'r gwaith ac yn ychwanegu ffynhonnell gwybodaeth werthfawr er mwyn enghreifftio technegau ac er mwyn dod i ganlyniadau a gwerthuso. Roedd nifer o ymgeiswyr wedi gwneud holiaduron syml ond ni fanteisiwyd ar y cyfle i ddangos y canlyniadau yn y ffordd orau. Dyma 'gyfle a gollwyd'. Mae'n bwysig gweld defnydd o siartiau, graffiau, diagramau ac ati, wedi'i gynnwys fel y dystiolaeth orau i gefnogi'r maen prawf hwn.

Lle na lwyddodd ymgeiswyr yn yr Ymchwiliad, roedd y maen prawf hwn yn rhwystr sylweddol.

Gwybodaeth

Gwnaed defnydd da o **ymchwil ar y we** yn y rhan fwyaf o'r Ymchwiliadau. Roedd **ymdrin â'r wybodaeth yn systematig** yn amlwg a hynny wedi'i drefnu a'i gynllunio gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ar y lefel gwaith uchaf.

Prin oedd yr ymgeiswyr na lwyddasant i ateb y maen prawf hwn. Yn anffodus, mewn nifer fach o achosion, cafodd gorddibyniaeth ar wybodaeth a 'godwyd' o'r rhyngrwyd effaith andwyol ar ganlyniadau

Dealltwriaeth

Roedd lefel y **cyfathrebu**'n gyffredinol yn cyfateb i Ymchwiliadau lefel 2 ac yn dderbyniol a phriodol ar y lefel honno. Dangoswyd **dealltwriaeth** i raddau amrywiol ac roedd yn amlwg yn adlewyrchu gallu'r ymgeiswyr. Weithiau roedd rhai wedi drysu braidd ac eto roedd hyn yn eu gwneud yn ffiniol yn y maen prawf hwn. Roedd hi'n amlwg fod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech frwd ac wedi elwa ar y profiad.

Yn ôl y disgwyl ar lefel 2, roedd nifer o'r ymgeiswyr yn dda am ddisgrifio ond yn llai hyderus wrth **egluro** neu'n wir roi **achosion a chasgliadau** i'r deunydd a oedd wedi'i gynnwys.

Gwerthusiadau a chasgliadau

Roedd hi'n amlwg bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi elwa ar wneud yr Ymchwiliadau ac wedi gwella eu **gallu i ddod i farn.** Roedd nifer sylweddol wedi llwyddo mewn

gwirionedd i **werthfawrogi**'r materion a oedd yn gysylltiedig â'u teitlau. Roedd y **casgliadau**'n aml yn ystyrlon ac yn **mynd i'r afael â'r teitlau,** a'r rhai gorau wedi'u seilio ar ystyried yr wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ac ar **ymchwil bersonol** (holiadur ac arsylwi personol). Yn yr Ymchwiliadau gwannaf nid oedd y sgìl yma wedi'i ddangos cystal. Roedd rhai o'r **casgliadau ychydig yn fyr ac yn syml** ac roedd rhai o'r ymgeiswyr gwannaf yn gorddibynnu ar sylwadau a barn bersonol yn hytrach nag ar yr wybodaeth wedi'i dogfennu a'r ffeithiau a oedd wedi'u cynnwys ynghynt yn y gwaith. Yn ogystal â chasgliad ffurfiol, roedd rhai o'r ymgeiswyr mwy galluog wedi ceisio cynnwys **ystyried a gwerthuso personol** gydol yr Ymchwiliadau, er enghraifft ar ôl graffiau, diagramau, ffotograffau ac ati a gwellodd hyn ansawdd eu gwaith.

I'r ymgeiswyr hynny a grafodd drwyddi i 'lwyddo' neu'n wir a 'fethodd' y maen prawf asesu hwn, roedd **diffyg gwerthusiad eglur** yn ffactor bwysig wrth benderfynu.

Rhai sylwadau pellach am yr Ymchwiliad Unigol

Teitlau

Roedd amrediad eang o deitlau gwreiddiol, arloesol ac unigol a oedd yn adlewyrchu amrediad eang dewisiadau'r ymgeiswyr a'u meysydd diddordeb hefyd. Mae amrediad o deitlau fel hyn eto'n gwbl briodol ac yn ysbryd CBC. Fel rheol y teitlau wedi'u seilio ar ragdybiaethau neu gwestiynau oedd y rhai mwyaf effeithiol, yn yr ystyr eu bod yn naturiol yn dod i gasgliadau penodol ac ystyrlon. Y cyngor i ymgeiswyr a chanolfannau yw **cadwch y teitlau'n syml ac osgoi gorgymhlethu pethau.**

Y 'Safbwynt Cymreig' a'r defnydd o safbwyntiau 'ehangach'

Mewn rhai enghreifftiau drysodd yr ymgeiswyr o ran beth oedd y ffordd orau o ddefnyddio enghreifftiau o Gymru a safbwyntiau eraill. Y dull mwyaf effeithiol yw lle mae'r ymgeisydd yn dewis **pwnc i'w astudio** ac yn **dangos** ei natur, ei broblemau ac yn rhoi **enghreifftiau priodol** wedi'u codi o ran o Gymru ac o un rhan arall o'r byd neu ar raddfa wahanol y tu allan i Gymru. Mae hyn yn fwy priodol na defnyddio llu o gymariaethau sy'n aml yn drysu ymgeiswyr ac yn gwneud iddynt ddilyn ysgyfarnogod.

Y Dyddiaduron/Datganiadau Dilysu

Roedd y dyddiaduron a welwyd yn dangos yr amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu a gweithgareddau y mae CBC yn eu cynnig. Cafodd y safonwyr argraff dda o'r ystod o gyfleoedd dysgu a'r profiadau ar gael a rhaid llongyfarch canolfannau am hyn.

- Roedd y dyddiaduron wedi'u trefnu'n dda ar y cyfan.
- Yn y dyddiaduron gorau, roedd yr ymgeiswyr wedi gwneud ymchwil ychwanegol ac felly wedi cyfoethogi eu ffeiliau.

- Roedd y gweithgaredd Menter Tîm yn gyson dda. Nid yn unig roedd wedi'i ddogfennu'n dda, drwy ddyddiaduron a hunanwerthuso, ond roedd yr ymgeiswyr hefyd yn amlwg wedi elwa ar y gweithgaredd ac wedi'i fwynhau. Yn y ffeiliau gorau, roedd sylwadau'r ymgeiswyr yn eithaf treiddgar ac yn adfyfyriol wrth ymdrin â materion 'Gweithio gydag Eraill'.
- Roedd y Cyfranogiad Cymunedol ar y cyfan yn effeithiol iawn ac roedd yr ymgeiswyr wedi'i ei fwynhau. Roedd amrywiaeth o gynlluniau 'bydi' neu 'fentora cymheiriaid', yn y ganolfan a'r tu allan iddi.
- Roedd cynnwys Addysg yn Gysylltiedig â Gwaith (AGG) yn briodol ar y cyfan ac yn ateb y maen prawf. Roedd AGG wedi galluogi achredu nifer o sgiliau allweddol ar lefelau 1 neu 2 ac roedd tystiolaeth dda o hynny. Y dyddiaduron lleoliad oedd uchafbwynt ffeiliau'r ymgeiswyr yn aml, yn enwedig mewn lleoliadau CACHE.
- Cymru, Ewrop a'r Byd – ar y cyfan wedi'i gyflwyno'n dda ac yn cynnwys gwerthusiadau gan ymgeiswyr.
- Roedd ABCh, yn yr enghreifftiau gorau, yn dangos logiau amser ac yn effeithiol.
- Mae sgiliau allweddol yn cael eu cynnwys mewn nifer o ganolfannau, a'r dyddiadur yn dod yn gyfrwng i ddangos tystiolaeth.
- Gwnaeth nifer o ymgeiswyr ddefnydd priodol o'r rhyngrwyd fel adnodd.

Casgliadau

Cryfderau

- Ar y cyfan, roedd barn tiwtoriaid yn cytuno i raddau helaeth iawn â chanfyddiadau'r safonwyr. Roedd hyn yn hynod braf ac arwyddocaol.
- Peth asesu da iawn o ran yr Ymchwiliadau, yn enwedig rhai'n defnyddio anodiadau, i amlygu cymhwysedd yn y pedwar maen prawf asesu.
- Mae'r gwaith o ansawdd gorau yn yr Ymchwiliadau a'r dyddiaduron yn dod o'r meysydd gwaith Craidd lle mae gan yr ymgeiswyr berchnogaeth, neu lle maent wedi dewis y pynciau oherwydd eu bod yn eu mwynhau neu'n ymddiddori ynddynt.
- Roedd rhestri gwirio ymgeiswyr a ddefnyddiwyd ar amryfal ffurfiau gan amryw o ganolfannau'n galluogi mapio a thracio'r meini prawf asesu'n dda.
- Cafodd rhai materion cyfoes sensitif eu hystyried yn aeddfed a synhwyrol a hynny'n arwain at gynhyrchu Ymchwiliadau effeithiol.

Roedd y dystiolaeth gyffredinol yn awgrymu i'r ymgeiswyr fanteisio ar ymgymryd â'r rhaglen.

Pryderon

- Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod canolfannau'n cael llofnodion ar daflenni datgan perthnasol.
- Lle 'methodd' ymgeiswyr, roedd hynny fel arfer yn digwydd oherwydd gwerthuso gwan. Mewn nifer o achosion roedd diffyg tystiolaeth o werthuso ac adfyfyrio a'r casgliadau'n grynodebau ailadroddus yn gwneud mwy nag ailadrodd yr Ymchwiliad.

- Roedd gan nifer fach o ganolfannau ddyddiaduron y barnwyd eu bod yn 'brin' a byddai lleihau'r dystiolaeth ymhellach yn golygu na fyddai'r portffolio yn cyrraedd yr isafswm safon ar gyfer llwyddo.
- Rhaid i diwtoriaid fonitro'r defnydd o'r rhyngrwyd i ymchwilio ac i roi tystiolaeth ar gyfer Ymchwiliadau.
- Mewn rhai dyddiaduron, roedd swm sylweddol o dystiolaeth ormodol wedi'i gynnwys, yn aml wedi'i gynhyrchu gan athrawon, heb fawr ddiben iddo ac yn gwanhau ansawdd gwaith gwreiddiol yr ymgeiswyr. Er bod cydbwysedd yn bwysig, mae peth gwirionedd yn yr hen ddywediad fod llai'n well na gormod.
- Barnwyd bod nifer fechan o Ymchwiliadau'n 'dda'.
- Mewn rhai canolfannau, cododd materion o ran rhannu adnoddau fel bod llawer o'r cynnwys a'r derminoleg roedd yr ymgeiswyr yn eu defnyddio'n debyg iawn. Cafodd y canolfannau hynny eu cynghori bod hyn yn ymylu ar lên-ladrad. Dylid pwysleisio mai Ymchwiliad **Unigol** yw'r agwedd hon ar y cwrs.
- Mewn lleiafrif o ganolfannau, roedd dryswch a oedd rhai ymgeiswyr wedi'u cofrestru, wedi'u tynnu'n ôl, neu wedi'u cofrestru'r eildro. Mae angen rhoi rhestri terfynol i CBAC pan fydd y sampl yn cael ei ddiffinio.
- Byddai rhai o'r ymgeiswyr gwannaf wedi elwa ar gael canolbwynt tynnach i'w teitlau a rhagor o gefnogaeth.

Crynodeb

- Bu cydymffurfio â'r amcanion asesu a oedd wedi'u gosod yn y fanyleb ar gyfer Lefel 2. Ar y cyfan roedd yr ymgeiswyr wedi gweithio'n frwdfrydig ac wedi elwa ar yr ymarfer.

- Gwelwyd ystod o allu, yn amrywio o'r rhai a oedd yn dda iawn i leiafrif sylweddol a oedd yn ffiniol ar lefel Canolradd, yn arbennig o ran yr Ymchwiliad.

- Yn eironig, mewn rhai achosion roedd ymgeiswyr wedi methu cael y dyfarniad llawn oherwydd bod sgiliau allweddol naill ai ar goll neu heb fod yn ddigon cryf i ateb cymhwyster allanol. Fodd bynnag, gallai peth o'r gwaith yn y dyddiaduron tystiolaeth, yn enwedig yn Menter Tîm neu Cyfranogiad Cymunedol, fod wedi ateb gofynion y sgiliau allweddol ehangach. Felly dyma gyfleoedd wedi'u colli, gan ddangos bod angen i Gydlynwyr weithio'n graffach lle mae cyfleoedd dysgu priodol yn codi'n naturiol.

- I grynhoi, credir i'r safonau cyffredinol wella a bod gan diwtoriaid well dealltwriaeth o botensial ac o ganlyniad eu bod yn fwy hyderus ynghylch dod i farn briodol a chywir.

6. PAM METHODD RHAI YMGEISWYR?

O'r ymgeiswyr hynny a fethodd gyflawni Diploma Canolradd CBC, y canlynol oedd y 'rhesymau' dros eu methiant (o ran canran y grŵp methu):

- Methodd 35% (39%) oherwydd eu diffyg llwyddiant mewn sgiliau allweddol, o'r rhain y pwysicaf yn eu trefn oedd Cyfathrebu, TG, GeDP, CRh, DP a GGE. Hefyd methodd yr ymgeiswyr hyn eu Dewisiadau.

- Methodd 18% (40%) arall eu sgiliau allweddol ond llwyddon nhw yn eu Dewisiadau.

- Methodd 28% (11%) oherwydd iddynt fethu yn eu Dewisiadau.

- Methodd 1% (10%) oherwydd yr Ymchwiliad Unigol.

- Methodd 18% (0%) oherwydd elfennau cwricwlaidd y Craidd, h.y. dyddiaduron, datganiadau dilysu. Roedd hyn i raddau helaeth oherwydd un ganolfan na chyflwynodd y dyddiaduron a chofnodion eraill yn gywir, fel bod yr ymgeiswyr wedi methu.

Mae anawsterau gyda sgiliau allweddol a'r Dewisiadau'n parhau i fod yn broblem i rai ymgeiswyr.

7. AMCANGYFRIFON ATHRAWON

Gofynnwyd i athrawon ragweld a fyddai ymgeiswyr yn 'llwyddo' neu'n 'methu' yn Nyfarniad Canolradd CBC. Mae hyn yn bwysig a defnyddiol wrth nodi canfyddiadau athrawon o ran pa mor llwyddiannus y buon nhw a'u hymgeiswyr yn ystod CBC. Hefyd mae'n rhoi tystiolaeth bellach i ni am y meysydd dysgu hynny lle gall fod problemau i ymgeiswyr.

Cynhyrchodd yr amcangyfrifon yr wybodaeth ganlynol:

- Llenwodd 9 o'r 14 canolfan a oedd ag ymgeiswyr yn sefyll dyfarniad 2006 amcangyfrifon rhagweld graddau.

- Rhoddodd 9 canolfan wybodaeth am 157 ymgeisydd, hynny yw, 61% o'r grŵp cwblhau.

- Roedd 81% o amcangyfrifon yr athrawon yn gywir, ffigwr uchel.

- O'r 9% o'r amcangyfrifon a oedd yn anghywir:

Roedd 6% yn anghywir am eu bod yn **goramcangyfrif** cyflawniad yr ymgeiswyr yn y Sgiliau Allweddol neu'r Dewisiadau.

Roedd 3% o'r rhain yn anghywir oherwydd iddynt amcangyfrif perfformiad yr ymgeiswyr **yn rhy isel**.

Mae'r ystadegau hyn yn dynodi cydberthyniad uchel rhwng canfyddiadau athrawon o lefel cyflawniad eu hymgeiswyr a'r union ddyfarniad a gafwyd.

8. MATERION GWEINYDDOL

Yn ystod 2005-06 cyflwynodd Tîm CBC raglen HMS a oedd yn canolbwyntio ar 'weinyddu'. Teimlid y gallai natur gymharol gymhleth cymhwyster rhychwantol fel CBC gynnig her yn weinyddol. Yn unol â hynny, rhoddwyd arweiniad ar amrediad o faterion gweinyddol o'r ffurflenni i'w llenwi, eu diben, amseriad eu llenwi a'u dychwelyd, a'r problemau a allai godi. Er y bu peth cynnydd yn y cyfnod yn arwain at ddyfarnu'r canlyniadau, mae'n eglur bod nifer o broblemau'n parhau ymhlith rhai canolfannau. Mae'r rhestr sy'n dilyn yn cynnwys rhai enghreifftiau o wallau gweinyddol a gododd yn ystod y flwyddyn. Dylid pwysleisio o'r newydd fod y rhan fwyaf o'r canolfannau'n cyflawni'r holl ofynion gweinyddol.

- Cafwyd cyfarwyddyd i dynnu ymgeiswyr yn ôl ym mis Mai/Mehefin ond pan gyhoeddwyd canlyniadau dros dro ym mis Awst cwynodd y ganolfan nad oedd wedi bwriadu i'r ymgeiswyr gael eu tynnu'n ôl. Llwyddodd pob un yn y Diploma Uwch.

- Cofrestrwyd ymgeiswyr ar gyfer y Diploma Uwch ond ni chofresrodd y ganolfan nhw ar gyfer y 3 sgìl allweddol ychwanegol i gael y Diploma (roedd gan yr ymgeiswyr hyn 6 sgìl allweddol yn barod ar lefel 2 ac roeddent wedi cyflawni Diploma Canolradd ym mis Mawrth ond dylent fod wedi cael eu cofrestru ar gyfer y tri sgìl allweddol ar lefel 3).

- Cofnodwyd bod un ymgeisydd yn fenyw gydag un corff dyfarnu ac yn wryw gyda chorff dyfarnu arall. Felly nid oedd y canlyniadau'n cyfateb â'i gilydd.

- Nododd canolfan wrth gofrestru yn Rhan 2 fod ei hymgeiswyr i gyd yn sefyll eu sgiliau allweddol gydag OCR ym mis Mehefin 06. Fodd bynnag, gwnaeth y ganolfan TG gyda CBAC ym mis Mehefin 05.

- Ar gyfer ei chanlyniadau sgiliau allweddol, roedd gan un ymgeisydd yr un enw canol, yr un cyfenw a'r un dyddiad geni; fodd bynnag, roedd ei henw cyntaf wedi'i sillafu'n wahanol ar gyfer un canlyniad sgiliau allweddol yn unig.

- Newidiodd canolfan yr ymgeiswyr o Ddiploma BTEC i Dystysgrif BTEC ond ni chofrestrwyd yr ymgeiswyr yn iawn ar gyfer y Dystysgrif BTEC - felly nid ymddangoson nhw ar y ffeil canlyniadau o'r corff dyfarnu.

- Cofrestrodd un ganolfan ei hymgeiswyr ar gyfer BTEC drwy un campws ond yna cofrestrwyd yr un ymgeiswyr ar gyfer eu sgiliau allweddol drwy gampws arall felly roedd hi'n anos cyfateb y data.

- 'Anghofiodd' nifer o ganolfannau gofrestru eu hymgeiswyr ymlaen ar gyfer sgiliau allweddol neu 'anghofio' i hawlio dirprwyon. Felly nid oedd gan yr ymgeiswyr a gofrestrwyd i wneud CBC obaith ei gyflawni.

- Yn achos un ymgeisydd ag enw dwbl cofnodwyd yr enw llawn ar gyfer un corff dyfarnu ond dim ond rhan o'r enw ar gyfer un arall.

- Cofrestrwyd tri ymgeisydd ar gyfer y Diploma Uwch ac aseswyd eu Hymchwiliadau Unigol ar lefel 3 ond pan gyhoeddwyd y canlyniadau dros dro dywedodd y ganolfan iddi gofrestru'r tri yma ar gyfer y Diploma Canolradd.

- Cofrestrodd un ganolfan ei holl ymgeiswyr ar gyfer yr Opsiynau gyda champws arall.

- Byddai nifer o ymgeiswyr wedi methu'r Opsiynau oherwydd nad oedd CBAC wedi cael gwybod eu bod eisoes wedi cael 4 TGAU. Codwyd hyn gan Dîm CBC.

Canlyniad gwallau fel y rhain yw bod gwybodaeth yn dal i gael ei gwirio'r diwrnod cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, gyda galwadau ffôn a negeseuon e-bost brys yn cael eu cyfnewid rhwng Swyddfeydd CBC a nifer o Gyrff Dyfarnu TAG, Galwedigaethol a Sgiliau Allweddol. Mae cyfnod o ryw fis ar ôl i'r canlyniadau dros dro gael eu cyhoeddi i ganolfannau godi cwestiynau am y canlyniadau. 'Ymholi am ganlyniadau' yw'r enw ar y cyfnod hwn ac mae'n dod i ben ar neu oddeutu 20.9.06.

9. FELLY, PA GASGLIADAU Y GALLWN DDOD IDDYNT WEDI CBC 2006?

- **Amcanion a chyflawni:** dau o amcanion sylfaenol CBC yw (a) cynyddu cyfradd yr ymgeiswyr sy'n dal ati a (b) codi lefelau cyflawni. Yn amlwg, mae cyfradd yr ymgeiswyr sy'n dal ati gyda'r Diploma Canolradd yn achos pryder. Y broblem fwyaf gyda'r Diploma Canolradd yw bod mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr yn ceisio ei orffen mewn blwyddyn yn rhan o'u rhaglen astudio alwedigaethol ôl-16. Yn realistig, mae hyn yn rhoi dau dymor yn unig i'r athrawon a'r ymgeiswyr i ateb anghenion y Diploma a golyga hyn bod cynllunio'r cwricwlwm yn allweddol os yw'r ymgeiswyr hyn yn mynd i'w gwblhau. Nodwedd arall sy'n peri pryder yw'r nifer fach iawn o ymgeiswyr mewn ysgolion sy'n cyflawni'r rhaglen ar lefel Ganolradd, er gwaethaf bwriad gwreiddiol yr ymgeiswyr a'r athrawon pan gânt eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster ym mis Chwefror. Cyflawnodd y rhai a gwblhaodd y rhaglen gyflawn gyfraddau llwyddiant uchel iawn gyda 75% yn cael y Diploma Canolradd, ac mae'r gyfradd llwyddiant o ran cyflawni'r chwe sgìl allweddol angenrheidiol yn dangos canlyniad cadarnhaol rhaglen addysgu-dysgu CBC. Dylid nodi mai'r gobaith yw y bydd peilota'r Diploma Sylfaen 14-19 a'r

Diploma Canolradd 14-16 yn rhoi sylw i rai o'r pryderon am y gyfradd sy'n dal ati.

- **Cyfradd y gwrywod a'r benywod sy'n ymwneud â'r Diploma Canolradd:** Mae'n bryder bod 76% o'r ymgeiswyr sy'n cwblhau'r Diploma Canolradd yn fenywod a 24% yn unig yn wrywod. Gellir egluro hyn drwy'r meysydd galwedigaethol sy'n ymwneud â'r lefel Canolradd ôl 16, fel y disgrifir isod. Disgwylir y bydd peilota'r Diploma Canolradd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn newid natur y garfan.

- **Cyflawniad blaenorol:** mae'r data Cyfnod Allweddol 3 a TGAU yn awgrymu bod gan y garfan hon safon cyflawniad blaenorol is na'r cyfartaledd, sy'n golygu bod y grŵp a gyflawnodd y Diploma Canolradd wedi gwneud yn eithriadol o dda. Er mai mân wahaniaethau'n unig oedd rhwng yr is-grwpiau (gwryw/benyw, ysgolion/colegau), roedd rhai arwyddion bod yr ymgeiswyr na chwblhaodd rhaglen CBC ychydig yn is eu cyrhaeddiad na'r rhai a'i cwblhaodd. Gobeithir y bydd cyflwyno'r Diploma Sylfaen o gymorth wrth alluogi'r ymgeiswyr hyn i anelu at gymhwyster y gallent ei gyflawni. Mae'r setiau data hyn yn awgrymu y gallai gwybodaeth am gyflawniad blaenorol fod yn werthfawr i athrawon wrth benderfynu a oes gan ymgeiswyr allu i ddilyn y rhaglen CBC, pa lefel sydd fwyaf priodol iddynt a meysydd dysgu y gallai fod angen sylw arnynt.

- **Cyrsiau a ddilynwyd:** Fel yn 2005, roedd mwyafrif helaeth yr ymgeiswyr Canolradd a gofrestrwyd ar gyfer y dyfarniad yr haf hwn mewn colegau ac yn dilyn cymwysterau galwedigaethol blwyddyn o hyd. Mae saith maes rhaglen sy'n arbennig o boblogaidd, a 4 o'r rhain yn y Diploma Canolradd am yr ail flwyddyn yn olynol – Gofal Plant, Busnes a Gweinyddiaeth, Teithio a Thwristiaeth a Gwasanaethau Cyhoeddus. Y llynedd roedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TG yn rhai o'r meysydd rhaglen mwyaf poblogaidd. Eleni mae Gofal Anifeiliaid, Croesawiaeth ac Arlwyo, a Gwallt a Harddwch ymhlith y 7 mwyaf poblogaidd. Mae'r meysydd rhaglen sy'n rhan o CBC yn ganlyniad i bolisi'r colegau sy'n cymryd rhan, a ddechreuodd beilota meysydd rhaglen arbennig a oedd fwyaf addas i CBC yn eu barn nhw. Mae gwaith ar y gweill i dynnu meysydd galwedigaethol eraill i CBC.

- **Sgiliau allweddol:** yn gyffredinol, roedd y canlyniadau yn y sgiliau allweddol yn dda iawn ymhlith y grŵp a gwblhaodd y cymhwyster, yn bennaf mewn colegau, yn arbennig o ran nifer yr ymgeiswyr a gyflawnodd y chwe sgìl gofynnol (y gofyniad ar gyfer haf 2006), ac yn y gyfradd llwyddo ar lefel 2 mewn Cyfathrebu, TGCh, Gweithio gydag Eraill a Gwella eich Dysgu a'ch Perfformiad eich Hun. Cafodd Cymhwyso Rhif a Datrys Problemau eu targedu'n fwy aml ar lefel 1. Hefyd roedd gwahanol batrymau cyrhaeddiad rhwng gwrywod/benywod mewn rhai sgiliau allweddol. Mae cyn lleied o ymgeiswyr mewn ysgolion fel na ellir dod i gasgliadau. Y casgliad cyffredinol o'r data yw bod rhai canolfannau a'u hymgeiswyr wedi cyflawni safonau uchel. Dylid nodi bod y gofynion ar gyfer cyflawni'r Diploma Canolradd wedi newid o fis Medi 2006 i bedwar sgìl allweddol gyda dau ar lefel 2 a dau ar lefel 1. Dylid cwmpasu pob un o'r tri sgìl allweddol cyntaf yn y cyflawniad hwn a dylai'r ymgeisydd ddangos iddo ddatblygu pob un o'r 6 sgìl allweddol.

- **Ymchwiliadau Unigol:** er bod canolfannau'n awgrymu bod nifer o'u hymgeiswyr yn teimlo bod yr Ymchwiliad Unigol yn anodd a'i bod yn ffactor bwysig wrth gyfrannu at 'ollwng' CBC, cyflwynodd mwyafrif yr ymgeiswyr Ymchwiliadau Unigol boddhaol. Mae'n bryder na wneir llawer o ddefnydd o sgiliau dadansoddi a chyflwyno, a'r gallu i werthuso a dod i gasgliadau. Dyma ddau faes lle gellid rhoi rhagor o gyngor i ymgeiswyr. Efallai y bydd yr enghreifftiau o waith ymgeiswyr i'w ddosbarthu gyda'r adroddiad hwn o ddefnydd i athrawon yn y broses hon.

- **Dyddiaduron/cofnodion/datganiadau dilysu:** roedd y gwaith a gyflwynwyd yn dangos bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi cwblhau cofnodion effeithiol o'u gwaith, ac ymddengys bod Cyfranogiad Cymunedol, Menter Tîm a Gweithio gyda Chyflogwr wedi creu brwdfrydedd a gwaith o safon uchel ymhlith ymgeiswyr.

- **Modiwl laith:** er bod gwelliannau'n amlwg, dyma ran wannaf rhaglen Graidd CBC o hyd. Y prif bryderon yw (a) faint o amser a dreulir ar y Modiwl, a (b) diffyg tystiolaeth bod cynnydd wedi digwydd rhwng dechrau a diwedd y cwrs. Mae pro ffroma hunanasesu newydd wedi'i gynnwys yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol i'r Diploma Canolradd.

- **Pam methodd ymgeiswyr?** yn ôl y disgwyl ymhlith y rhesymau a roddwyd gan ganolfannau am beidio â chwblhau, roedd y sgiliau allweddol yn ffactor pwysig o ran cyfrannu at 'fethu', yn enwedig Cyfathrebu, TGCh a Chymhwyso Rhif. Roedd nifer o ganolfannau'n dal i'w chael hi'n anodd addasu i ofynion gweinyddol CBC o ran y sgiliau allweddol, er enghraifft, peidio â chofrestru ymgeiswyr tan yn ddiweddar yn y flwyddyn academaidd - wrth gyflwyno portffolios yn gynnar mae modd ailgyflwyno i gyrff dyfarnu sgiliau allweddol. Ar y llaw arall, ni chododd yr anawsterau a ragwelwyd o ran yr Ymchwiliadau Unigol a'r dyddiaduron/datganiadau dilysu. Mae'n eglur fod canolfannau'n dod yn fwy medrus wrth baratoi at y sgiliau allweddol ac wrth eu cyflwyno. I gloi, awgrymir y gall rhai ymgeiswyr barhau i gael problemau wrth gwblhau eu rhaglenni Dewisiadau, a hynny'n gysylltiedig o bosibl â chanfyddiad yr ymgeiswyr am y llwyth gwaith.